

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn  
Cadeirydd: Alwyn Roberts

---

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**Mai 5<sup>ed</sup>, 2015**

**Presennol:** Alwyn Roberts (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths (is Gadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**1432** Wrth estyn croeso i bawb, talodd y Cadeirydd deyrnged i waith a dycnwch y cyn Gadeirydd, Dewi Jones, a diolchodd iddo ar ran y Cyngor am ei ymroddiad. Derbyniwyd ymddiheuriad Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd).

**1433** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

**1434** Derbyniwyd datganiad buddiant Beryl Hughes Griffiths ym mater 1443 (i) sef gwaith ar wal a phorth mynwent yr Eglwys.

**1435** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ebrill 14, 2015.

**1436** Nid oedd materion yn codi o'r Cofnodion nad oedd eisoes ar yr Agenda.

**1437** Derbyniwyd gyda diolch y sylwadau a wnaethpwyd gan y Clerc ar ran y Cyngor i'r Ymgynghoriad ar Ddiwygio Llywodraeth Leol.

**1438** Gohiriwyd mater Adroddiad y Cynghorydd Sir.

**1439 Materion Eiddo'r Cyngor**

Derbyniwyd gwybodaeth am werthiant Cut yr Hers ac arwyddwyd y ddogfen trosglwyddiad teitl. Cytunwyd i wneud defnydd o arian o'r gwerthiant mewn rhyw ffordd a fyddai o fudd parhaol i drigolion yr ardal. Cytunwyd i roi ystyriaeth i syniadau mewn cyfarfodydd i ddod.

**1440 Materion ariannol**

- i. Derbyniwyd Adroddiad yr Is-bwyllgor Cyllid/Mynwent ond gan fod cymhlethdodau mae'r Is-bwyllgor yn dymuno cyfarfod eto cyn dod ag argymhellion gerbron. Cytunwyd i ofyn am wybodaeth ac arweiniad gan Un Llais Cymru a Chyngor Gwynedd. Cytunwyd i ofyn i'r Contractwr wneud gwaith ychwanegol o chwynnu wrth y Gilfach Goffa.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- iii Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis: 2 gynrychiolydd i Gynhadledd SLCC (i'w rannu gyda Chyngor Tref Y Bala), a thrwsio wal y fynwent. Cytunwyd i dalu costau teithio'r Clerc am fynychu cynhadledd Un Llais Cymru ym Metws y Coed ar y Papur Gwyn.

**1441 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned**

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Alwyn Roberts

---

(i) Diolchwyd i Gyngor Gwynedd am glirio'r ffos ym Mhenantlliw ond tynnwyd sylw at yr angen i fynd i ben y Feidiog er mwyn gwneud y gwaith yn gyflawn.

(ii) Nid yw'r bin ail gylchu glas ym maes parcio'r neuadd yn cael fawr o ddefnydd yn ôl ystadegau Gwynedd. Gwnaethpwyd sawl cais eisoes iddo gael ei symud a chytunodd Arwel Lloyd Jones i geisio cael ymateb i'r cais.

**1442 Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a soniodd am y defnydd cynyddol o'r Ystafell Gwnsela ("Llafar") yng Nghanolfan Henblas. Daeth mwy o geisiadau am ddefnyddio gofod nag sydd o ystafelloedd ar gael ar hyn o bryd yn yr Henblas, felly mae Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf yn bwrw ymlaen i geisio cael grant i adnewyddu'r llawr uchaf. Mae trafodaethau yn parhau gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am gynnal toiledau a meysydd parcio, gan fod y Parc yn wynebu toriadau cyllidol ar hyn o bryd.

### **1443 Gohebiaeth:**

#### **1. Parc Cenedlaethol Eryri:**

(i) Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i wneud agoriad yn wal mynwent yr Eglwys a gwneud gwaith i ddiogelu'r Porth.

(ii) Cais NP5/71/E449A: cymeradwywyd y cais i gadw llinell drydanol uwchben mewn perthynas â darparu cyflenwad tanddaearol i Gynllun Dŵr Afon Dwrnodon.

#### **2. Gwynedd:** derbyniwyd rhaglen waith mis Mai.

#### **3. Un Llais Cymru:**

i. Derbyniwyd copïau o "Y Llais".

ii. Derbyniwyd Agenda'r Pwyllgor Ardal a'r Cyfarfod Blynyddol yng Nghanolfan Henblas ar 13/5/15.

#### **4. Eraill:**

- i. Derbyniwyd gair o ddiolch am gyfraniad gan Cantref.
- ii. Derbyniwyd neges o ddiolch am gefnogaeth i Rheilffordd Llyn Tegid.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth gan yr Ombwdsman am drefniadau cwynion am Ymddygiad.
- iv. Trafodwyd cais am gyfraniad ariannol tuag at ymgyrch "Cadwch Neuadd Buddug". Cytunwyd i holi'r Cynghorydd Sir a oes sicrwydd y bydd yr offer digidol i ddangos ffilmiau yn cael ei drosglwyddo i'r ysgol gydol oes, ac a fydd darpariaeth i gynnal gwasanaeth sinema yn yr ysgol. Cytunwyd i roi ystyriaeth i'r cais am gefnogaeth ariannol ar ôl derbyn yr wybodaeth hon.
- v. Derbyniwyd gwybodaeth am grantiau ar gyfer diogelu cofebion rhyfel.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 9/6/15

*Amser gorffen: 9.00pm*